**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

—

**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@Senedd.Cymru
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Jason Killens
Prif Weithredwr
Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans

26 Hydref 2023

Annwyl Jason,

Ymchwiliad Pwyllgor: atal trais ar sail rhywedd drwy ddulliau iechyd y cyhoedd

Yn dilyn ein llythyr dyddiedig 9 Awst 2023, rydym bellach wedi cyrraedd diwedd y broses o gasglu tystiolaeth ar gyfer ein hymchwiliad i atal trais ar sail rhywedd drwy ddulliau iechyd y cyhoedd. Cawsom ymateb i'n gohebiaeth flaenorol oddi wrth bob bwrdd iechyd lleol yng Nghymru ac eithrio Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a byddem yn eich annog i ailystyried cyflwyno tystiolaeth fel rhan o'r ymchwiliad hwn.

Rydym wedi clywed tystiolaeth gref ynghylch y rôl hanfodol y mae gwasanaethau rheng flaen yn ei chwarae fel rhan o gydymdrechion tuag at ymyrraeth gynnar ac atal trais ar sail rhywedd. Felly, rydym o'r farn y byddai ymateb gennych yn gyfraniad pwysig i'n hymchwiliad ac at ein dealltwriaeth o sut mae gwasanaethau'n ymdrin â'r mater hwn.

Mae'r amserlen yn dynn, ond byddai'r tîm clercio'n hapus i gysylltu â chi i bennu dyddiad cau sy'n gyfleus i bawb ar gyfer eich cyflwyniad.

Edrychwn ymlaen at glywed gennych.

Yn gywir



Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Amg. Gohebiaeth at Brif Weithredwyr Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau GIG Cymru, 9 Awst 2023